

# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 1af 2021 drwy gyfrwng Zoom. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Bethan Thomas, Gary Thomas, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerch.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwenda Evans.

## **i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

### **ii) Datgan Buddiant.**

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

### **iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

i) Canghennau'r coed yn dod drosodd i'r ffordd ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel. Roedd archwilydd priffyrdd Cyngor Gwynedd wedi cysylltu â'r perchennog eisoes i ofyn iddynt dorri'r canghennau.

b) Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar gyfer y Sector Cynghorau Cymuned a Thref.

Cafwyd adroddiad gan y clerch o oblygiadau'r deddfau newydd. Cytunwyd i dalu'r clerch am y gwaith ychwanegol ynghlwm a'r deddfau newydd.

c) Archwilio asedau.

Nodwyd fod yr asedau wedi cael eu harchwilio ac nid oeddynt angen unrhyw waith cynnal a chadw.

ch) Mynwentydd.

Cytunwyd fod angen prynu cofrestr claddedigaethau newydd i fynwent Frongoch. Cytunwyd i ofyn i Gwmni Ciltalgarth dorri'r glaswellt yn amlach ger y beddi newydd. ym mynwent Frongoch Trafodwyd y pris a dderbyniwyd ar gyfer trwsio a pheintio giatiau mynwent Llandderfel. Gan nad oedd y pris arall wedi dod i law eto, cytunwyd i aros amdano cyn gwneud penderfyniad.

## **iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Ymgynghoriad Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn. Cytunwyd i'w gwblhau.

ii) Les newydd i Barc Chwarae Frongoch. Yn dilyn y drafodaeth flaenorol ynglŷn â symud safle'r parc chwarae fel rhan o gynllun newid lleoliad Cylch Meithrin Maesywaen i Frongoch, derbyniwyd e-bost yn gofyn a oedd y Cyngor yn barod i arwyddo cytundeb newydd. Cytunwyd i ildio'r les presennol ac arwyddo'r cytundeb newydd.

b) Amrywiol.

i) Cymdeithas yr Iaith – cais i gefnogi eu hymgyrch yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu a sicrhau fod cymunedau lleol yn gallu rheoli'r farchnad dai. Cytunwyd i gefnogi'r ymgyrch ac i Alwyn Jones arwyddo'r llythyr ar ran y cyngor cymuned.

ii) Cymru dros Ewrop – ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau a fydd yn effeithio ar ddinasyddion yr UE ac AEE-EFTA sy'n byw yng Nghymru.

iii) Galwad ffôn gan deulu sydd yn gyfrifol am fedd ym mynwent Llandderfel. Gofynnwyd i'r clerch gysylltu'n ôl a'r teulu i'w hysbysu mae eu cyfrifoldeb hwy oedd diogelu'r garreg o dan sylw.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol:-

C21/0479/04/DT - Branas, Llandderfel. Caniatâd cynllunio rhannol ôl-weithredol ar gyfer:-gosod gwaith trin carthffosiaeth newydd, codi wal gabion, creu dreif newydd a gweithrediadau peirianyddol gan gynnwys ehangu ardal ddyrchafedig o flaen y tŷ.

C21/0467/04/LL - Cae Pant, Llandderfel. Codi adeilad cynhyrchu wyau maes gan gynnwys ystafell bacio (ailgyflwyniad).

C21/0436/04/LL - Rhiwlas Hall. Estyniad unllawr ar flaen a chefn tŷ annedd gydag addasiadau i'r eiddo.

C21/0481/04/TC - Rhyd-y-ffos, Cwm Main. Defnyddio annedd amaethyddol fel uned breswyl heb gydymffurfio a'r amod deiliadaeth amaethyddol.

Cytunwyd i gefnogi'r tair cais cyntaf a gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â chais Rhyd-y-ffos.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Blynyddol.

Nodwyd sylwadau'r archwilwyr mewnol a chytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau cyfrifyddu a llywodraethu yn y ffurflen archwiliad blynyddol.

b) Taliadau.

i) Cyngor Gwynedd (Rhent Cae Chwarae Ffrongoch). Cytunwyd i gwestiynu'r taliad os oedd cytundeb newydd yn cael ei baratoi.

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerwr basio'r cwyn canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd

i) Dŵr yn rhedeg ar draws y ffordd tuag at fynedfa Ysgol Ffridd y Llyn gan fod draen angen sylw.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 6ed am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”.**